Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

# HYFFORDDWR TGCH

**Cyfeirnod: 503265**

**GRADD 8: CYFLOG: £28,371 - £29,439**

**37 awr yr wythnos**

**Parhaol**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu dros 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae technoleg yn gydran gritigol o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n helpu darparu'i weithgareddau o ddydd i ddydd. Gan gynnwys danfon ein criwiau i ddigwyddiadau gweithredol, sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg hollbwysig, a chefnogi systemau sy'n rheoli ein hadnoddau – mae technoleg yn ymwneud â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Mae swydd wag gyffrous gydag oriau hyblyg wedi codi ar gyfer swydd heriol ond gwerth chweil fel Hyfforddwr TGCh yn yr Adran TGCh. Byddwch chi'n gweithio fel aelod o'r Tîm Cymwysiadau TGCh sy'n gyfrifol am yr holl systemau a ddefnyddir o fewn y Gwasanaeth; gan gynnwys systemau gweinyddol megis Cyllid i systemau rheng flaen fel Terfynellau Data Symudol ar ein peiriannau tân. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio â'n Hyfforddwyr TGCh presennol i ddylunio a darparu hyfforddiant ar draws y Gwasanaeth; o Bencadlys ein Gwasanaeth Tân ac yn ein Gorsafoedd Tân.

Yn gyffredinol, mae ein hymagwedd at hyfforddiant ar ffurf sesiynau un i un neu mewn grwpiau bach ac yn dueddol o fod yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na sesiynau ffurfiol. Gellir cyflwyno hwn wyneb yn wyneb neu drwy Microsoft Teams. Byddai'r rôl yn addas ar gyfer rhywun sy'n hyblyg yn ei agwedd ac sy'n hoffi cwrdd â phobl a datrys problemau. Rydym hefyd yn cynnal rhywfaint o hyfforddiant ffurfiol ar ffurf Dosbarthiadau Meistr, gellir eu cynnal mewn unrhyw leoliad o fewn y Gwasanaeth ac maent yn seiliedig ar wella sgiliau mewn cymwysiadau Swyddfa. Mae hwn yn gyfle gwych i rywun sydd eisiau bod yn rhan o dîm deinamig, person sydd â sgiliau pobl gwych, ac yn cofleidio'r ffaith y bydd pob diwrnod yn wahanol.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae Buddion ychwanegol yn cynnwys gweithio hyblyg, campfa ar y safle a cheir y Gwasanaeth i deithio oddi ar y safle. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan Wasanaeth Datgelu'r Alban cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 ganol dydd 15/03/2023.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG